CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM
ADRAN HAMDDEN, LLYFRGELLOEDD A DIWYLLIANT
CANOLFAN HAMDDEN A GWEITHGAREDDAU'R WAUN
RHEOLIADAU CYFFREDINOL
Perthnasol i Holl Ddefnyddwyr

4. **Dehongliad**

(a) Ystyr y "Rheolwyr" yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

(b) Ystyr "Prif Swyddog" yw Prif Swyddog Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant neu unrhyw swyddog a awdurdodwyd i wneud unrhyw ddyletswydd arbennig.

(c) Ystyr "Canolfan" yw cwrtil cyfan Canolfan Hamdden a Gweithgareddau'r Waun ac unrhyw ran ohono.

(d) Ystyr "Defnyddiwr" yw unrhyw un sy'n defnyddio'r ganolfan neu unrhyw un o'i chyfleusterau boed hynny'n golygu codi unrhyw dâl neu beidio, ac yn cynnwys gwyliwr.

5. **Mynediad**

Gall y Prif Swyddog wrthod mynediad i unrhyw un heb roi unrhyw reswm dros wneud hynny ac yn yr un modd gall fynnu bod unrhyw un yn gadael y Ganolfan.

6. **Difrod**

Nid yw'r Rheolwyr yn derbyn cyfrifoldeb neu atebolrwydd am ddifrod neu golli unrhyw eiddo neu nwyddau neu bethau o fath yn y byd a ddodwyd neu a adawyd gan y defnyddiwr yn y Ganolfan neu unrhyw ran ohoni. Fodd bynnag, caiff pob ymdrech ei gwneud i gael diogelwch cyffredinol da.

7. **Anaf**

Mae caniatâd i ddefnyddio'r Ganolfan a'r holl offer, cyfleusterau ac amwynderau ynddi ar gyfrifoldeb y defnyddiwr ei hun. Ni fydd y Rheolwyr yn atebol am unrhyw anaf corfforol i unrhyw ddefnyddiwr, nac am golled sy'n deillio, heblaw o ganlyniad i gyflwr diffygiol y Ganolfan neu ei hoffer neu oherwydd esgeulustod y Rheolwyr, ei asiantau, swyddogion neu weision.
Ni fydd diffyg neu annigonolrwydd goruchwylio defnyddio unrhyw gyfleuster yn cael ei ystyried fel esgeulustod oni bai y trefnwyd goruchwyliaeth o'r fath yn benodol gyda'r Prif Swyddog.

8. **Cyfrifoldebau'r Defnyddiwr**

Cydymffurfio â holl gyfarwyddiadau a cheisiadau'r Prif Swyddog.
Gweithredu a chadw at holl gyfarwyddiadau'r Rheolwyr sy'n ymwneud â defnyddio'r Ganolfan ac ymddygiad ynddo sy'n cael eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd trwy rybudd yn yr eiddo ac adeiladau neu fel arall. Talu ar gais y Rheolwyr am unrhyw ddifrod (heblaw am draul deg) a wnaed neu a achoswyd i'r Ganolfan neu i'w gosodiadau, cyfarpar, offer, a dodrefn neu gynhwysion eraill, ac am ddifrod a achoswyd i'r Ganolfan gan y defnyddiwr neu unrhyw rai'n cyfranogi ar y cyd â'r defnyddiwr neu gan unrhyw un dan eu gofal neu reolaeth. Bydd y Rheolwyr yn ardystio maint y difrod a bydd eu penderfyniad yn derfynol.
Rhyddarbed y Rheolwyr rhag pob cais, hawliad, achos a gweithred o ran marwolaeth neu anaf i unrhyw un, neu ddifrodi neu golli eiddo yn perthyn I unrhyw un (heblaw'r Rheolwyr), yn deillio o ddefnyddio'r Ganolfan, heblaw o ganlyniad i gyflwr diffygiol y Ganolfan neu offer y Rheolwyr neu esgeulustod y Rheolwyr, ei asiantau, swyddogion neu weision.
Sicrhau bod y rhan o'r eiddo ac adeiladau ac unrhyw offer a ddefnyddiwyd yn cael eu gadael mewn cyflwr taclus a threfnus erbyn diwedd cyfnod eu defnyddio.
Ymatal rhag holl ymddygiad sy'n anweddus ac annheg neu sy'n gallu achosi annifyrrwch neu ddifrod i ddefnyddwyr eraill y Ganolfan.

1. **Heb awdurdod y Prif Swyddog, rhaid i'r defnyddiwr beidio â:**

Dod ag unrhyw fwyd neu ddiod neu unrhyw beth atgas i'r Ganolfan.
Dod ag unrhyw anifail na chaniatáu i un aros yn y Ganolfan.
Gwerthu neu gyflenwi unrhyw nwyddau o fath yn y byd i ddefnyddwyr eraill.

2. **Ffôn Symudol:**

Ni chaniateir ffônau symudol yn yr ardaloedd newid na'r ardaloedd weithgaredd. Dylid diffodd ffônau symudol cyn mynd i mewn i'r ardaloedd yma. Gellir eich gorfodi I adael y cyfleusterau os ydych chi'n defnyddio ffôn symudol yn yr ardaloedd yma.

3. **Loceri**

Ni chaniateir storio eiddo yn y loceri dros nos. Bydd loceri sydd ar defnydd ar diwedd y diwrnod gwaith yn cael eu hagor a'u wacāu.

pure pur

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam